# Ceredigion Deg a Chyfartal

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion 2024-28 (drafft)

Dyma ein pedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (drafft). Mae'n disgrifio sut y byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb a sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau a amcanir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Yn ystod haf 2023 fe wnaethom gasglu barn pobl ar gydraddoldeb yn ein hardal leol. Rydym hefyd wedi defnyddio dystiolaeth o ymgyrchoedd ymgysylltu blaenorol, er enghraifft, ein Hasesiad o Lesiant Lleol (Mawrth 2022), ein Hasesiad Digonolrwydd Gofal Plant (Mehefin 2022) a Chynllun Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2022).

Rydym wedi adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb yn sgil ein hymgysylltiad a'n hymchwil. Ein casgliad yw bod ein hamcanion yn dal yn addas i'r diben ond, oherwydd natur newidiol cymdeithas a'r gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma, mae angen i ni ddiwygio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion.

Cwblhewch yr arolwg isod a'i ddychwelyd atom erbyn 31 Rhagfyr 2023.

Os hoffech siarad â rhywun am ein Cynllun Cydraddoldeb neu am yr arolwg hwn, cysylltwch â'r tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar:

**Ffôn – 01545 570881**

**E-bost – clic@ceredigion.gov.uk**

Ein hamcanion cydraddoldeb yw:

1. Bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol
2. Meithrin Perthynas Dda a mynd i'r Afael â Rhagfarn
3. Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi
4. Sicrhau Urddas, Parch a Mynediad i Wasanaethau
5. Darparu Addysg Deg a Chynhwysol

# Arolwg

1. **Ydych chi'n credu y dylai "bod yn Gyflogwr Cyfle Cyfartal Enghreifftiol" fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion?**

Ydw Nac ydw

**Y camau i gyflawni'r amcan hwn yw:**

a) Byddwn yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn o ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn cymryd camau i annog cymysgedd mwy cyfartal o ddynion a menywod mewn swyddi gradd is a gradd uwch.

b) Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol o ran cydraddoldeb y gweithlu ac yn cymryd camau i annog cynrychiolaeth gymesur yn ein gweithlu, yn enwedig yn y gweithlu gofal cymdeithasol ac mewn uwch reolwyr.

c) Byddwn yn adolygu polisïau adnoddau dynol a llenyddiaeth recriwtio fel eu bod yn adlewyrchu anghenion a hunaniaethau amrywiol y gymuned yr ydym yn byw ynddi.

d) Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ystod o hyfforddiant o safbwynt ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb.

e) Byddwn yn hyrwyddo ein cynllun graddedigion ac yn datblygu dull cydgysylltiedig o weithredu o ran profiad gwaith a chyfleoedd prentisiaeth.

f) Byddwn yn adeiladu ar ein gweithgareddau ymgysylltu â chyflogeion ac yn parhau i sicrhau bod lleisiau ein gweithlu i gyd yn sail i wneud penderfyniadau.

**2. A ydych chi'n credu y bydd y camau hyn yn ein helpu i gyflawni ein hamcan, i fod yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal, enghreifftiol?**

Ydw Nac ydw

**3. Ydych chi'n meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn well?**

**4. Ydych chi'n credu y dylai "Meithrin Perthynas Dda a Mynd i’r Afael â Rhagfarn" fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion?**

Ydw Nac ydw

**Y camau i gyflawni'r amcan hwn yw:**

a) Byddwn yn monitro'r defnydd a wneir o Asesiadau Effaith Integredig ac yn rhoi cyngor arnynt.

b) Byddwn yn gweithredu ar ein hymrwymiad i ‘Siarter Troseddau Casineb’ Cymorth i Ddioddefwyr ac yn defnyddio marc y Siarter Troseddau Casineb lle bo'n briodol.

c) Byddwn yn sicrhau bod casgliadau perthnasol, yn enwedig rhai a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm, yn dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltiad gwrth-hiliol.

d) Byddwn yn cefnogi'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol i fonitro tensiynau mewn cymunedau.

e) Byddwn yn cefnogi'r tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol i gyflwyno ymgyrch cyfryngau flynyddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth, dathlu amrywiaeth, a choffáu digwyddiadau hanesyddol perthnasol.

f) Byddwn yn ymuno â'r rhwydwaith o gymunedau ‘Oed-gyfeillgar’ ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n adlewyrchu anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio.

**5. A ydych yn credu y bydd y camau hyn yn ein helpu i gyflawni ein amcan, meithrin cysylltiadau da a mynd i'r afael â rhagfarn?**

Ydw Nac ydw

**6. Ydych chi'n credu y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn well?**

**7. A ydych chi'n credu y dylai "Sicrhau Ymgysylltu a Chyfranogi" fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion?**

Ydw Nad ydw

**Y camau i gyflawni'r amcan hwn yw:**

a) Byddwn yn cefnogi rhaglenni a chynlluniau i gynyddu cynrychiolaeth mewn gwleidyddiaeth leol a'r drefn leol o wneud penderfyniadau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, menywod, pobl anabl, pobl LHDTC+ a phobl o gefndiroedd du ag ethnig lleiafrifoedd.

b) Byddwn yn datblygu aelodaeth Fforwm Anabledd Ceredigion.

c) Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifoedd fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da.

d) Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sefydlu fforwm rhanddeiliaid LHDTC+ fel y gallwn ddeall yn well enghreifftiau o arfer da.

e) Byddwn yn datblygu ac yn gwella ein defnydd o blatfformau ymgysylltu ar-lein a'n defnydd o ddulliau ymgysylltu sydd ddim yn ddigidol.

f) Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn rhoi adborth i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori.

**8. A ydych yn credu y bydd y camau hyn yn ein helpu i gyflawni ein hamcan, er mwyn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad?**

Ydw Nac ydw

**9. Ydych chi'n meddwl y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn well?**

**10. A ydych yn credu y dylai "sicrhau Urddas, Parch a Mynediad at Wasanaethau" fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion?**

Ydw　　　　　　Nac Ydw

**Y camau i gyflawni'r amcan hwn yw:**

a) Byddwn yn parhau i fwrw ati i hyrwyddo’r cyfleoedd ddatblygu Cymru Gwaith i ddiwallu anghenion ein gwasanaethau a chefnogi ein diwylliant dwyieithog.

b) Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau i'r cyhoedd, fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio’r gwasanaethau hyn drwy’r Gymraeg yn naturiol, os mai dyna’u dewis.

c) Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd cynhwysol ac arbenigol i blant a phobl ifanc anabl gael chwarae a gwneud gweithgareddau corfforol.

d) Byddwn yn parhau i gefnogi darpariaeth gofal plant gynhwysol ac arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.

e) Byddwn yn sefydlu model integredig o ofal cymunedol a thai yn Nhregaron.

f) Byddwn yn darparu tai sy'n diwallu anghenion ein cymunedau

g) Byddwn yn ystyried anghenion pobl anabl wrth gynnal a chadw neu wella palmentydd a ffyrdd (er enghraifft cyrbau is a pharcio i'r anabl).

h) Byddwn yn anelu at gyflawni sgôr o AAA ar gyfer ein gwefan.

i) Byddwn yn parhau i ddatblygu ein ffyrdd o gyfathrebu â'r cyhoedd.

j) Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Toiledau fel ei bod yn adlewyrchu anghenion ein poblogaeth sy’n newid, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol bosib.

k) Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu atebion cynaliadwy a fforddiadwy o ran teithio.

**11. A ydych yn credu y bydd y camau hyn yn ein helpu i gyflawni ein amcan, er mwyn sicrhau urddas, parch a mynediad at wasanaethau?**

Ydw　　　　　　Nac ydw

**12. Ydych chi'n credu y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn well?**

**13. A ydych chi'n credu y dylai "darparu Addysg Deg a Chynhwysol" fod yn Amcan Cydraddoldeb i Gyngor Ceredigion?**

Ydw Nac ydw

**Y camau i gyflawni'r amcan hwn yw:**

a) Byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau trawsryweddol cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.

b) Byddwn yn anelu at sicrhau bod Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn cynrychioli rhychwant amrywiaeth y disgyblion a geir yn y lleoliad addysg.

c) Byddwn yn sicrhau bod y polisïau gwrth-fwlio mewn ysgolion a lleoliadau addysg yn adlewyrchu fersiwn ddiweddaraf Llywodraeth Cymru o'r canllawiau gwrth-fwlio, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb.'

d) Byddwn yn gweithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32

e) Byddwn yn gwella'r ddarpariaeth addysgol a'r canlyniadau i blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant heb ADY a'r rhai ag ADY.

f) Byddwn yn parhau i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl i fanteisio ar dechnolegau digidol, ac i gydnabod manteision bod ar-lein.

**14. A ydych yn credu y bydd y camau hyn yn ein helpu i gyflawni ein hamcan, er mwyn sicrhau addysg deg a chynhwysol?**

Ydw Nac Ydw

**15. A ydych chi'n credu y gallem wneud mwy, neu wneud pethau'n wahanol, er mwyn cyflawni'r amcan hwn yn well?**

**16. A ydych chi'n credu y bydd ein cynllun Cydraddoldeb, yn ei ffurf ddrafft bresennol, yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar statws y Gymraeg yn y gymuned?**

Ydw Nac Ydw

**17. Defnyddiwch y bwlch isod i ychwanegu sylwadau pellach am yr effaith ar y Gymraeg.**

# Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

Nid oes rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn. Maent yn ein helpu i wirio ein bod wedi casglu barn ystod eang o bobl sy'n adlewyrchu'r boblogaeth yng Ngheredigion. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer dadansoddi ystadegol yn unig.

**18. Beth yw eich oedran?**

- 0-15
- 16-24
- 25-44
- 45-64
- 65+
- Gwell gennyf beidio â dweud

**19. Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd?**

- Gwryw
- Benyw
- Anneuaidd
- Trawsryweddol
- Mae'n well gennyf ddefnyddio term arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**20. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?**

- Heterorywiol/Strêt
- Hoyw, Lesbiaid neu Cwiar
- Deurywiol
- Cyfeiriadedd Rhywiol arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**21. Sut fyddech chi yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**

- Prydeinig
- Cernywaidd
- Seisnig
- Gogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Hunaniaeth genedlaethol arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**22. Sut fyddech chi yn disgrifio eich grŵp ethnig?**

- Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- Grŵp Cymysg neu Aml-ethnig
- Gwyn
- Grŵp ethnig arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**23. Beth yw eich grefydd neu gred?**

- Cristion
- Bwdhaidd
- Hindŵaidd
- Iddewig
- Mwslim
- Sikh
- Dim crefydd
- Crefydd neu gred arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**24. Ydych chi wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU <u>o'r blaen</u>?**
(dylai aelodau cyfredol ddweud 'na')

- Ydw, yn y Lluoedd Arfog Rheolaidd
- Ydw, yn y Lluoedd Arfog wrth gefn
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

**25. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**

- Oes, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn
- Oes, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig
- Nac oes
- Gwell gennyf beidio â dweud

**26. Beth yw eich dewis iaith?**

- Cymraeg
- Saesneg
- Gwell gennyf beidio â dweud

**27. Ydych chi’n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod
- Gwell gennyf beidio â dweud

Diolch am gwblhau'r arolwg hwn.

Dychwelwch i Lyfrgelloedd Ceredigion neu i:

Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE

Bydd yr arolwg yn cau ar 31 Rhagfyr 2023.

Bydd eich ymateb yn cyfrannu at ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol 2024-28 a fydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet Ceredigion ar 27 Chwefror 2024.

Byddwn yn dechrau gweithio ar y cynllun ar 1 Ebrill 2024.